trobwynt
Rhannu'r ffydd Gristnogol gyda'n hieuenctid
Cylchlythyr
Rhifyn 5
Hydref 2008

Souled Out am y Ffydd.

Ar ddydd Sadwrn y 25ain Hydref, byddwn yn cynnal ein digwyddiad *Souled Out* cyntaf. Cynhadledd ieuenctid wythnos o hyd ydy *Souled Out* a gaiff ei chynnal yng Ngholeg y Bala bob haf, gyda grwpiau astudiaethau Beiblaidd sydd wedi'u sefydlu ledled Cymru, sy'n cyfarfod yn fisol. Er y bydd ein digwyddiad yn wahanol i'r cyfarfodydd rhanbarthol arferol, rydym wedi'n cysylltu â *Souled Out Cymru*. Bydd y noson yn cynnwys gemau dod i adnabod ein gilydd, addoliad wedi'i arwain gan fand ieuenctid a dysgeidiaethau ar ffydd wedi'u harwain gan John Settatree. Bydd gennym hefyd stondin yno yn gwerthu llyfrau ieuenctid, Beiblau, nodiadau Beiblaidd a chryno ddisgiau Cristnogol. Rydym yn gobeithio'n fawr y bydd y digwyddiad yn hwyl a bydd yn agored i bob person ifanc blwyddyn 7 a hŷn o ardal Llŷn ac Eifionydd. Mae'r cyhoeddusrwydd ar gyfer y digwyddiad hwn eisoes wedi'i ddosbarthu, ond os oes angen gwybodaeth bellach arnoch, yna cysylltwch â ni ar y manylion isod.

souledout Cymru
souledoutcymru.net

Trobwynt ac EFE yn cyfarfod

Andrew Settatree

Ar 16 Hydref cyfarfu ymddiredolwyr Trobwynt ac EFE am ychydig o fwyd, sgwrs a gweddi. Pwy yw EFE? Elusen tebyg i Trobwynt byw EFE sy'n awyddus i gyflwyno'r newyddion da am Iesu Grist yn ardal papur bro Eco'r Wyddfa (**E**fengyl i **F**ro'r **E**co) Y mae aelodau o eglwysi'r gwahanol enwadau yr ardal wedi bod yn gweddïo a phwyllgora, ac yn sicrhau arian i gynnal swydd newydd am gyfnod cychwynnol o dair blynedd. Bellach mae Andrew Settatree, o Hwlffordd, wedi ei benodi'n weithiwr ieuenctid Cristnogol cyntaf Efe, a dechreuodd ei waith ar Hydref 1af. Mae Andrew yn frawd i John Settetree!

Cawsom noson hyfryd iawn yn trafod, gwrando a gweddio. Dymuniad Trobwynt ac Efe yw y byddwn yn elwa oddi wrth brofiadau ein gilydd.

Cwrs 'Offensive' yn dod i Ogledd Cymru.


Dai Hankey

Rydym yn hynod falch a chyffrous o'ch hysbysu am y cwrs 'Offensive' sy'n dod i Gricieth ar y 5ed a'r 6ed o Ragfyr. Cwrs hyfforddi efengylaidd yw hwn sydd wedi'i anelu at bobl ifanc ac arweinwyr ifanc er mwyn eu hyfforddi, eu harfogi a'u hysgogi i rannu'r efengyl gyda'u ffrindiau, cyfoedion a chydweithwyr. Caiff y cwrs hwn ei redeg gan y mudiad ieuenctid o'r enw 'Ignite', sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd, a phrif siaradwr y digwyddiad fydd Dai Hankey – y gŵr a luniodd y cwrs. Byddwn hefyd yn cael, nid un, ond dau grŵp addoli ar gyfer y digwyddiad, sef Andy Hughes o Saint y Gymuned a fydd yn arwain yr addoli ar y nos Wener, a'r *Tim Bannister Trio* sydd yn ymuno â ni ar y dydd Sadwrn.

Bydd cyhoeddusrwydd ar gyfer y digwyddiad yn cael ei ryddhau yn ystod y dyddiau nesaf ac rydym yn agor y digwyddiad i bobl y tu hwnt i ardal Llŷn ac Eifionydd. Os hoffech ddod â'ch ieuenctid i'r digwyddiad, neu'n awyddus i dderbyn manylion pellach amdano, yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda – gweler y manylion cyswllt isod.

Diweddariad am CIC.

Dyma ddiweddariad i chi am glybiau CIC yr ardal. Rydym bellach wedi ailddechrau gyda phob clwb erbyn hyn, ac yn cael amser da iawn. Yn y cylchlythyr diwethaf, soniwyd ein bod yn bwriadu sefydlu clwb CIC newydd yn Y Ffôr ac rydym eisoes wedi cynnal dau gyfarfod gyda nifer yn mynychu'r ddau. Mae clybiau CIC Llithfaen a Morfa Nefyn wedi ailddechrau, ac mae'n braf gweld yr hen wynebau'n dychwelyd eto y flwyddyn hon.

Hoffech chi gefnogi trobwynt ?

Cysylltwch â'r Ysgrifennydd
Tabor
Llithfaen
Pwllheli
LL53 6NL Rhif Ffôn: 01758 750202